# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(O BELL TRWY TEAMS)**

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau'n bresennol:</u>** | **<u>Dydd Mawrth, 12 Hydref 2021</u>** |
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes, M.Protheroe a/ac R.L.Taylor |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod N.J.E.Davies (Glyncorrwg), J.Jones (Gwynfi) a/ac S.Jones (Cymmer) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, S.Ball, M.Shaw, J.Griffiths, S.Evans a/ac T.Davies |

---

1. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 31 Awst 2021 fel cofnod cywir.

2. **<u>GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD</u>**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **<u>TAFLEN DDIWYGIADAU</u>**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif Cylchredwyd dogfen P2018/0493 cyn y cyfarfod, ac roedd y Cadeirydd wedi rhoi amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd iddi gael ei chylchredeg/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw am y rhesymau a'r amgylchiadau arbennig

canlynol: nid oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac roedd am sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

4. **RHIF P2018/0493 - CYRCHFAN ANTUR CWM AFAN**

Cyflwynodd Swyddogion adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Cais cynllunio amlinellol (gan gynnwys mynediad) ar gyfer cyrchfan antur yn cynnwys 600 o gabanau gwyliau/fflatiau, gwesty â 100 gwely a sba cysylltiedig, plaza canolog yn cynnwys bwytai, gweithgareddau hamdden a siopau, gweithgareddau antur ac adeiladau cysylltiedig (gan gynnwys chwaraeon eithafol, llethrau sgïo/alpaidd, gweithgareddau yn y goedwig a Trax & Trail), bwytai ac adeiladau gweinyddol a chynnal a chadw cysylltiedig a pharcio ar gyfer oddeutu 850 o geir, yn ogystal â gweithrediadau tirlunio, draenio a pheirianneg cysylltiedig gan gynnwys ailbroffilio tir, triniaeth ffin, adeileddau cynnal, goleuadau allanol a theledu cylch cyfyng, a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus.

Gwybodaeth ychwanegol a diwygiedig a dderbyniwyd ar 25/01/2019 a 07/02/2019 dan Reoliad 24 mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirwedd ac effaith weledol, effaith economaidd gymdeithasol a thrafnidiaeth ynghyd ag addasiadau i'r prif gynllun a chynllun paramedrau. (Medi 2021 - Cyflwyniadau ychwanegol sy'n mynd i'r afael â chyllid/chyflawniad datblygu, gan gynnwys Cynllun Busnes diwygiedig gan Wildfox Resorts a'r rhaglen ddangosol; y diweddaraf am y polisi cynllunio; Nodyn dilysu ecolegol, a mân newidiadau i'r Uwch-gynllun a'r Cynllun Paramedrau) ar dir ym Mhen y Bryn, Croeserw, Y Cymmer, Port Talbot) fel y manylir yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Rhoddodd dau gynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd eu sylwadau, yn ogystal ag aelodau lleol y ward a roddodd eu cefnogaeth i'r cais.

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD:** | Cymeradwyo Cais Rhif P2018/0493, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar gytundeb cyfreithiol Swyddog Adran 106 a'r wybodaeth a'r penderfyniad diwygiedig a gynhwysir yn y Daflen Ddiwygio a gylchredwyd, yn ogystal â'r amodau y manylir arnynt yn yr adroddiad a gylchredwyd. |

**CADEIRYDD**